# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 27 Mehefin 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(75)

**Ethol Dirprwy Lywydd dros dro**

Cafodd Peter Black ei ethol yn Ddirprwy Lywydd dros dro.

**1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Dechreuodd yr eitem am 13:30.

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Atebwyd cwestiwn 5, 9 a 12 gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**2. Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**

Dechreuodd yr eitem am 14:17.

Gofynnwyd cwestiynau 1 – 7, 9 – 12 ac 14 – 15. Ni ofynnwyd cwestiwn 8. Tynnwyd cwestiwn 13 yn ôl.

**3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad**

Dechreuodd yr eitem am 15:01.

Atebwyd cwestiynau 1 – 4 gan Peter Black. Tynnwyd cwestiwn 5 yn ôl.

**4. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Roi Pwerau i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU**

Dechreuodd yr eitem am 15:10.

**NDM5022 David Melding (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar yr ymchwiliad i'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru yn neddfau'r DU, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Gwener 23 Mawrth 2012.

Noder: Gosodwyd ymatebion y Prif Weinidog, y Pwyllgor Busnes a Chomisiwn y Cynulliad i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**5. Dadl ar Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009**

Dechreuodd yr eitem am 15:59.

**NDM5021 Christine Chapman (Cwm Cynon)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar yr ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mai 2012.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 20 Mehefin 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**6. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

Dechreuodd yr eitem am 16.45.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5025 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod cryfder y teimlad yn erbyn cynigion i israddio gwasanaethau yn Ysbyty Llwynhelyg yn Sir Benfro ac yn mynegi pryder ynghylch yr ymgysylltiad â chlinigwyr a'r cyhoedd;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Deoniaeth Cymru ac i adolygu'r arferion a ddefnyddir wrth gadw a hyfforddi meddygon iau;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r Colegau Brenhinol i adolygu perthnasedd y canllawiau diogelwch clinigol a sicrhau bod y canllawiau hyn wedi'u teilwra ar gyfer amodau lleol, ac yn adlewyrchu amodau lleol, gan gynnal arfer gorau; a

4. Yn galw ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i egluro sefyllfa gyllido bresennol y Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 20 | 0 | 23 | 43 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 1.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 23 | 0 | 20 | 43 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 2:

'gyda'r nod o sicrhau bod yna lefelau staffio digonol ym mhob rhan o Gymru'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 0 | 43 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 3.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 23 | 0 | 20 | 43 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 3 ar ôl 'adlewyrchu amodau lleol' cynnwys ', yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ymylol,'

**Gan fod gwelliant 3 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliant 4 ei ddad-ddethol.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5025 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Deoniaeth Cymru ac i adolygu'r arferion a ddefnyddir wrth gadw a hyfforddi meddygon iau gyda'r nod o sicrhau bod yna lefelau staffio digonol ym mhob rhan o Gymru.

2. Yn galw ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i egluro sefyllfa gyllido bresennol y Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 0 | 43 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 17:41.

**7. Dadl Fer - WEDI'I GOHIRIO**

Daeth y cyfarfod i ben am 17:44.

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, ddydd Mawrth, 3 Gorffennaf 2012**